# Bwyð i Feððwl

Diweððariað COVID-19 gan Fwrðð Diwyðiant Bwyð a Dioð Cymru





**18 Mai 2020**



"Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru'n bodoli i hyrwyddo bwyd a diod yng Nghymru, ac mae'r argyfwng digynsail cyfredol yn sgil Covid-19 wedi dangos bod y rôl honno'n fwy hanfodol nawr nag erioed. Nod y diweddariad yma gan y Bwrdd yw cyfeirio busnesau at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt nawr ar ffurf gryno.

Rydyn ni'n cydnabod bod llawer o fusnesau wedi arafu neu wedi atal cynhyrchiant, neu wedi rhoi staff ar ffyrlo, tra bod cynhyrchiant eraill ar yr un lefel neu ar lefel uwch nag yr oedd cyn yr argyfwng. Mae hi'n hanfodol ein bod ni'n clustnodi'r sialensiau allweddol, a'n bod ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i daclo'r problemau hyn.

Bydd yna sawl agwedd o'r diwydiant i'w hystyried yn y dyfodol gan gynnwys rôl cyllid a thechnoleg, pa farchnadoedd i'w targedu, ac elwa ar unrhyw ddulliau newydd buddiol o weithio sydd wedi deillio o'r argyfwng.

Ond am y tro, rydyn ni'n cydnabod bod pethau'n anodd dros ben i lawer iawn o fusnesau yn y sector. Rwy'n eich annog chi i estyn allan at y bwrdd a rhannu eich pryderon a'ch dealltwriaeth chi o'r sefyllfa sydd ohoni fel y gallwn ddarparu'r atebion gorau posibl ar gyfer eich busnes a'r sector ar led. Ein cenhadaeth ni, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yw cydweithio'n agos â busnesau bwyd a diod er mwyn sicrhau bod gennym ddiwydiant cynaliadwy, gwydn a phroffidiol wrth edrych tua'r dyfodol. Hoffem ddiolch i chi hefyd am roi o'ch amser i ddarllen ein newyddlen. Gobeithio bod y newyddlen hon yn darparu'r wybodaeth, yr adnoddau a'r cymorth rydych chi'n chwilio amdanynt yn ystod y cyfnod hwn."

**Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru**

## Camau allweððol o'r wythnos

*rhai o'r gweithreðoeðð onð nið pob un


- Rydyn ni wedi cynnal galwadau cynadledda wythnosol manwl gydag aelodau'r Bwrdd a chydweithwyr uwch yn Llywodraeth Cymru i glustnodi'r sialensiau a'r cyfleoedd sy'n deillio o Covid-19. Rydyn ni wedi gwahodd arbenigwyr o'r sector i'r cyfarfodydd hyn i fanteisio ar eu gwybodaeth nhw am y materion hyn hefyd.
- Rydyn ni'n parhau i gydweithio'n agos â'r Ganolfan Arloesi Busnes ar y Rhaglen Barod i Fuddsoddwyr er mwyn sicrhau bod busnesau'n barod at y dyfodol.
- Mae'r Bwrdd yn parhau i gasglu data a thystiolaeth am fusnesau a marchnadoedd bwyd a diod i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod diwydiant bwyd a diod Cymru'n parhau i fod yn flaenoriaeth wrth gynllunio ar gyfer yr adferiad.
- Rydyn ni'n parhau i gydweithio'n agos â'r Ffederasiwn Bwyd a Diod er mwyn sicrhau fod gennym y darlun gorau posibl o'r sefyllfa ar draws y DU ac er mwyn cynrychioli buddiannau diwydiant bwyd a diod Cymru.
- Rydyn ni wedi ymgysylltu'r holl grwpiau Clwstwr er mwyn creu darlun o safbwyntiau a gweithredoedd y sectorau unigol.
- Cafodd y Bwrdd gyfarfod â chynrychiolwyr allweddol o'r diwydiant llaeth a'r llywodraeth er mwyn deall yr argyfwng sy'n dal i effeithio ar ffermwyr llaeth, a hoelio ffocws y trafodaethau ar ddod o hyd i atebion ymarferol i'r diwydiant.
- Rydyn ni'n dal i gysylltu â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am amseriad ac effaith Brexit, yng ngoleuni'r llu o fusnesau bwyd a diod sydd eisoes yn dioddef caledi yn sgil argyfwng coronafeirws.
- Rydyn ni'n cynnal dialog â'r Llywodraeth am ddyfodol y cynllun ffyrlo ac effaith unrhyw newidiadau i'r cynllun ar y sector bwyd a diod yng Nghymru.
- Rydyn ni wedi parhau i rannu dolenni at wybodaeth, cymorth a phecynnau cymorth trwy Twitter a LinkedIn, ac yn helpu gyda phecynnau'r cyfryngau cymdeithasol.

## Prif straeon newyððion yr wythnos

- Cychwyn ymgyrch i hybu'r galw am laeth
- Waitrose yn hybu stêc i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd mewn carcasau eidion
- Angen ailfeddwl cadwyni cyflenwi bwyd
- Cwmni byrbrydau Cymreig yn rhoi stoc i fwydo gweithwyr y rheng flaen

## Cymorth Covið-19

Cliciwch i gael gwyboðaeth am yr aðnoððau syðð ar gael





## Lleisiau o'r ðiwyðiant

Gyðag Alan Wyn Jones, Rheolwr Gyfarwyððwr, Hufenfa De Arfon




Hufenfa De Arfon (HDA) yw cydweithfa ffermydd llaeth hynaf a mwyaf Cymru. Fe'i sefydlwyd ym 1938 yn dilyn ymgyrch arloesol gan y sylfaenydd, John Owen Roberts i dynnu ffermwyr ynghyd i farchnata eu llaeth.

Mewn blynyddoedd diweddar, mae HDA wedi buddsoddi £12m mewn dulliau newydd hollol fodern o gynhyrchu caws, ac er mwyn ailddatblygu'r gweithfeydd pacio yn ein canolfan wreiddiol ger Pwllheli. Hwn yw'r adeilad newydd mawr cyntaf yn y diwydiant cynhyrchu caws yn y DU ers 40 mlynedd, ac mae'r datblygiad wedi caniatáu i ni fuddsoddi mewn llu o welliannau technolegol a gweithredol. Torrwyd ein record gwerthiannau yn y flwyddyn hyd Fawrth 2019 wrth i ni daro £52 miliwn, ac mae'r hufenfa ar y trywydd iawn i dorri trothwy £60 miliwn y flwyddyn hon.

Oherwydd argyfwng Covid-19 rydyn ni wedi gorfod gweithredu â gweithlu llai am fod rhai staff wedi gorfod hunan-ynysu, ond rydyn ni wedi parhau i gasglu a phrosesu llaeth o ffermydd pob un o'n 135 o aelodau, sydd wedi golygu sifftiau estynedig i rai aelodau staff. Yn nyddiau cynnar yr argyfwng, gwelsom gynnydd o 100 y cant yn y galw gan adwerthwyr dros nos, am fod pobl yn prynu mewn panig, a bu angen i ni ddiwallu'r galw yma â gweithlu llai a sifftiau estynedig hefyd.

Rydyn ni wedi cyflwyno mesurau diogelu ar gyfer ein gweithwyr ym mhob rhan o'r busnes, o gasglu o ffermydd i gynhyrchu a phacio, ac wedi rhoi trefniadau gweithio o bell a rhith-gyfarfodydd ar waith ar gyfer staff nad ydynt yn weithwyr cynhyrchu.

Y tu hwnt i adwerthu, mae'r busnes wedi gweld gostyngiad mawr yn y galw gyda'r marchnadoedd gweini bwyd a b2b yn disgyn tua 50 y cant. Mae'r sector llaeth hylifol y tu hwnt i adwerthu'n wynebu argyfwng, ac mae hynny'n rhywbeth sydd wedi taro'r farchnad i gyd. O safbwynt HDA, rydyn ni wedi gohirio dau brosiect cyfalaf mawr yr oedd gwaith eisoes wedi dechrau arnynt. Rydyn ni'n awyddus i ailgydio yn y prosiectau hyn cyn gynted ag y bydd canllawiau Llywodraeth Cymru'n dweud ei bod hi'n ddiogel i ni wneud hynny.

Ein blaenoriaeth bennaf yw diogelwch a lles ein staff, a'n hymrwymiad i gasglu a phrosesu 100 y cant o laeth ffermwyr, a hynny wrth sicrhau'r gwerth gorau posibl ar gyfer y ffermwyr hefyd.

Bydd busnesau yn y sector bwyd a diod yn parhau i wynebu sialensiau aruthrol pan fydd y cyfyngiadau a chymorth y llywodraeth yn llacio, felly mae hi'n hanfodol bod cynlluniau fel y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn parhau, nawr ac yn y dyfodol.

Caðwch mewn cysylltiað am ððiweððariaðau

Ymunwch â'n Grŵp Facebook i rannu gweithluoeðð

Cysylltwch â ni: Chair.FDWIB@gov.wales